



Rhaglen Gyflawn

Gwasanaeth Democratiaeth
Swyddfa'r Cyngor
CAERNARFON
Gwynedd
LL55 1SH

Cyfarfod

PWYLLGOR IAITH

Dyddiad ac Amser

2.00 y.h., DYDD MAWRTH, 28AIN CHWEFROR, 2017

Lleoliad

Siambwr Hywel Dda, Swyddfeydd y Cyngor, Caernarfon, Gwynedd. LL55 1SH

Pwynt Cyswllt

Ann Roberts

01286 679780

annelizabethroberts@gwynedd.llyw.cymru

(Dosbarthwyd Dydd Llun, 20 Chwefror 2017)

PWYLLGOR IAITH

AELODAETH (15)

Plaid Cymru (8)

Y Cynghorwyr

Gareth Wyn Griffith
Elwyn Edwards
Gweno Glyn
R. Hefin Williams

Craig ab Iago
Alan Jones Evans
Charles Wyn Jones
John Wyn Williams

Annibynnol (4)

Y Cynghorwyr

Thomas G. Ellis
Eirwyn Williams

Eric M. Jones
Elfed Williams

Llais Gwynedd (3)

Y Cynghorwyr

Alwyn Gruffydd

Owain Williams

Llafur (1)

Y Cynghorwyr Sion W. Jones

Aelodau Ex-officio

Cadeirydd ac Is-Gadeirydd y Cyngor

Aelod arall a wahoddir

Y Cynghorydd Dyfrig Siencyn, Aelod Cabinet – Y Gymraeg

R H A G L E N

1. YMDDIHEURIADAU

I dderbyn unrhyw ymddiheuriadau am absenoldeb

2. DATGAN BUDDIANT PERSONOL

I dderbyn unrhyw fuddiant personol

3. MATERION BRYD

Nodi unrhyw eitemau sy'n fater bryd ym marn y Cadeirydd fel y gellir eu hystyried

4. COFNODION

5 - 11

Bydd y Cadeirydd yn cynnig y dylid llofnodi cofnodion cyfarfodydd o'r pwyllgor hwn a gynhaliwyd ar 13 Hydref 2016 a 22 Tachwedd 2016 fel rhai cywir.

5. ADRODDIAD YR AELOD CABINET - Y GYMRAEG

I gyflwyno adroddiad yr Aelod Cabinet – Y Gymraeg

6. CYFLWYNIAD PRIF AMCANION STRATEGAETH IAITH UWCHRADD (DRAFFT)

I dderbyn sylwadau aelodau'r Pwyllgor Iaith

7. ADRODDIAD YMCHWILIAD IAITH - GWELEDEDD Y GYMRAEG YNG NGWYNEDD 12 - 31

I gyflwyno adroddiad gan Gadeirydd yr Ymchwiliad

8. GWEITHREDU SAFONAU IAITH

32 - 36

Cyflwyno'r profiad o baratoi a gweithredu safonau y Gymraeg, rôl Comisiynydd y Gymraeg a threfniadau i hybu a hyrwyddo defnydd y Gymraeg mewn ymateb i'r galwad am dystiolaeth 'Paratoi ar gyfer Bil y Gymraeg' gan Weinidog y Gymraeg a Dysgu Gydol Oes.

9. AWDIT IAITH

37 - 39

I dderbyn diweddariad gan y Swyddog Datblygu Iaith - Gweithle

10. CWYNION IAITH

40 - 41

I dderbyn diweddariad gan y Swyddog Datblygu Iaith - Gweithle

PWYLLGOR IAITH, 13.10.16

Yn bresennol: Y Cynghorydd Eirwyn Williams (Cadeirydd)
Y Cynghorydd Charles Jones (Is-gadeirydd)

Y Cynghorwyr: Craig ab Iago, Elwyn Edwards, Tom Ellis, Alan Jones Evans, Gareth Wyn Griffith, Alwyn Gruffydd, Eric M. Jones, Elfed Williams, Hefin Williams, ac Owain Williams

Hefyd yn bresennol: Y Cynghorydd Dyfrig Siencyn (Aelod Cabinet – Y Gymraeg).

Swyddogion: Debbie Anne Jones, Swyddog Hyrwyddo'r Iaith Gymraeg, Gwenllian Williams (Swyddog Datblygu Iaith), Garem Jackson (Swyddog Addysg Ardal Gymraeg) ac Ann Roberts (Swyddog Cefnogi Aelodau).

Ymddiheuriadau: Y Cynghorydd Gweno Glyn a John Wyn Williams.

1. DATGAN BUDDIANT PERSONOL

Ni dderbyniwyd datganiad o fuddiant personol gan unrhyw aelod oedd yn bresennol.

2. COFNODION

Llofnododd y Cadeirydd gofnodion y cyfarfod blaenorol o'r pwyllgor hwn a gynhaliwyd ar 5 Gorffennaf 2016 fel rhai cywir.

3. ADRODDIAD YR AELOD CABINET – Y GYMRAEG

Cyflwynwyd – adroddiad llafar yr Aelod Cabinet – Y Gymraeg, yn manylu ar ddatblygiadau diweddar o fewn y maes, gan gynnwys y canlynol:-

- Awdit iaith a'r cynllun gweithredu. Cyfarfod pedwar Pennaeth Gwasanaeth – Economi, Hamdden, Rheoleiddio ac Ymgynghoriaeth i bwysleisio pwysigrwydd yr iaith Gymraeg gan ofyn iddynt raglennu gwaith i ymateb i'r diffygion.
- Ceisiwyd cyfarfod efo Aelodau Cabinet Cynghorau cyfagos i drafod sut maent yn bwriadu ymateb i ofynion Safonau Iaith ond methiant llwyr fu'r ymgais hynny. Wedi cyfarfod buddiol iawn efo Swyddog Iaith Cyngor Bwrdeistrefol Sirol Conwy sydd yn gweithio dros Gonwy a Chyngor Bwrdeistrefol Sirol Wrecsam i drafod safonau iaith. Cytunwyd i gyfarfod ym mis Ionawr yng Nghonwy gyda holl Swyddogion Iaith awdurdodau'r Gogledd, Y Gwasanaeth Iechyd, Yr Heddlu a'r Gwasanaeth Tân gyda gwahoddiad i'r holl Aelodau Cabinet. Cyfarfodydd rheolaidd wedi bod yn y gorffennol rhwng Swyddogion Iaith.
- Cafwyd cyfarfod buddiol gyda swyddog o Swyddfa Comisiynydd Iaith yng Nghaernarfon yn rhannu gwybodaeth am ein gweithgareddau.
- Cyfarfod gyda Hunaniaith, corff sy'n cynrychioli mentrau iaith Cyngor Sir, Iechyd a'r Brifysgol gyda chyfarfod arall wedi ei drefnu. Byddir yn cyfarfod ar y cyd efo Fforwm Iaith Môn er trafod be sy'n digwydd yng Nghyngor Gwynedd ac yn Chyngor Sir Fôn yng nghyd-destun y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus. Byddir yn trafod yr elfen o ddefnydd yr iaith yng ngwasanaethau cyhoeddus ble bydd yn bwysig iawn dod i ddealltwriaeth.
- Hunaniaith yng Nghanolfan Iaith newydd Bangor yfory gydag Alun Davies, Gweinidog y Gymraeg a Dysgu Gydol Oes Llywodraeth Cymru yn agor y Ganolfan.

- Gwelwyd Alun Davies, Gweinidog y Gymraeg a Dysgu Gydol Oes Llywodraeth Cymru yn Ysgolion Abercaseg a Phen-y-bryn, Bethesda heddiw. Yno cafwyd sgwrs gyda Bethan Webb, Dirprwy Gyfarwyddwr y Gymraeg, Llywodraeth Cymru sy'n gyfrifol dros Fentrau Iaith a bydd cyfle pellach i drafod llwyddiannau ynghyd â materion na lwyddwyd eu cyfarch mewn cyfarfod sydd eto i'w drefnu.

Gofynnwyd a oedd paratodau ar gyfer y miloedd o bobl, yn ôl y sôn, a fydd yn symud i fewn i Ynys Môn i weithio a'r effaith ar yr iaith am flynyddoedd i ddod. Adroddwyd bod cwmni Horizon wedi trefnu cyfres o gyfarfodydd gyda gwasanaethau Cyngor Gwynedd wythnos nesaf.

Adroddodd aelod y croesawir pob ymdrech a mesur i gynyddu'r Gymraeg ond bod angen i Lywodraeth Cymru edrych yn wrthrychol ar ei hun a'i weithdrefnau a gwella arweiniad cenedlaethol clir o ran cefnogi'r iaith.

PENDERFYNWYD nodi cynnwys yr adroddiad.

4. YMGYNGHORIAD AR STRATEGAETH Y GYMRAEG

Cyflwynwyd ymateb drafft yr Aelod Cabinet i'r ddogfen ymgynghori: Miliwn o siaradwyr erbyn 2050, sy'n crynhoi safbwynt y Cyngor yn glir a chryf iawn. Nodwyd bod ffocws y Strategaeth Iaith y Llywodraeth flaenorol wedi symud ymlaen erbyn y Strategaeth hon yn canolbwyntio bron yn llwyr ar addysg a thwf addysg Gymraeg fel y cyfrwng all wireddu'r miliwn o siaradwyr erbyn 2050. Nodwyd bod yr ymateb yn edrych ar beth fyddai effaith hynny ar Wynedd gan bo Ysgolion Cymraeg a dwyieithog eisoes yma.

Adroddwyd bod

- Angen cyfeirio mwy at gadarnleoedd y Gymraeg a sut y bwriedir cryfhau'r Gymraeg yn yr ardaloedd hynny sydd yn meithrin Cymraeg naturiol.
- Angen cyfeirio at gynllunio cymunedol
- Angen ymrwymiad go iawn a fydd yn treiddio i holl waith Llywodraeth Cymru

Gwnaed y sylwadau ychwanegol ar yr ymateb drafft

- Nodwyd nad oes cyfeiriad ar sut y bwriedir gwireddu'r Strategaeth ac o ble daw'r adnoddau i sicrhau ei llwyddiant.
- Cyfeirir at addysg bellach ac addysg uwch. Nodwyd pryder aelod am y disgownt a roddir i fyfyrwyr Cymru i fynd i golegau yn Lloegr sy'n gwneud drwg mawr i'r iaith. Nodwyd bod disgyblion yn dewis iaith pwnc yn yr ysgolion ac os ydynt yn dewis coleg yn Lloegr nid ydynt wedyn yn dod yn ôl i'r ardal. Nodwyd nad oedd yn gwneud synnwyr bod arian ar gyfer myfyrwyr Cymru yn cael ei ddefnyddio i noddi colegau yn Lloegr a gofynnwyd i'r sylw gael ei gynnwys yn yr ymateb.
- Nodir yn y Strategaeth ddrafft bod y Siarter Iaith yn gefnogol i'r gyfundrefn ddwyieithog ond nid yw hynny'n wir. Mae'r Siarter Iaith i gefnogi cyfundrefn Gymraeg.
- Awgrymodd aelod bod angen sefydlu ardaloedd penodol Cymraeg.
- Angen rhoi gwerth economaidd i'r Gymraeg a rhaid defnyddio deddfau cynllunio i warchod y Gymraeg. Awgrymwyd bod angen ymestyn menter gymunedol Grŵp Cynefin - Cymdeithas Dai Gogledd Cymru sydd yn darparu gwasanaethau dwyieithog i denantiaid.
- Nodwyd bod gangen ceisio perswadio pobl Gymraeg i ddefnyddio'r Gymraeg yn eu cymunedau yn rhai ardaloedd.
- Angen rhoi ystyriaeth i swyddi yn y Strategaeth.

- Angen sicrhau nad yw'n bosib cam-ddehongli'r ymateb drafft o dan y Maes datblygu 3: Addysg a bod angen cynnwys diffiniad addysg ddwyieithog Cyngor Gwynedd.
- Angen cyplysu hanes Cymru yng ngwersi'r Ysgolion.

Adroddwyd y bydd yr ymateb drafft i'w gyflwyno i'r Tîm Arweinyddiaeth cyn diwedd y mis gyda'r cyfnod ymgynghori yn dod i ben ar 31 Hydref 2016.

Diolchwyd i'r aelodau am eu sylwadau ac adroddwyd bod modd i ymateb yn uniongyrchol hefyd.

PENDERFYNWYD ymgorffori'r sylwadau ychwanegol yn yr ymateb i'r ddogfen ymgynghori ar ran Cyngor Gwynedd.

5. CYNLLUN STRATEGOL Y GYMRAEG MEWN ADDYSG - DRAFFT

Derbyniwyd adroddiad llafar gan y Swyddog Addysg Ardal Gwynedd yn egluro bod Cynllun 2017-20 yn parhau gyda phum deiliant y cynllun 2010. Adroddwyd y bwriad i osod targedau uchelgeisiol ond yn gyraeddadwy gan y bydd y Cyngor yn gorfod adolygu cynnydd yn erbyn y targedau hynny.

Eglurwyd y bwriad gwreiddiol i gyflwyno cynllun drafft i'r Pwyllgor Iaith ond oherwydd bod templed y cynllun wedi newid cymaint ni fu hynny'n bosibl. Yn ogystal, adroddwyd bod sesiynau ymgynghorol Llywodraeth Cymru ar draws y Gogledd ddim wedi dod i ben tan wythnos diwethaf, gyda'r diwethaf yn Llandudno.

Adroddwyd ar y tair Adran a'r deilliannau ynghyd a'r targedau drafft mae Cyngor Gwynedd yn bwriadu osod yn y cynllun gweithredu i ymateb i'r gofynion. Nodwyd bod fframwaith Estyn yn gofyn cwestiwn ar sut mae'r Cyngor yn cynllunio'n fwiadus a bydd angen dangos hynny.

Nodwyd yr amserlen allweddol ganlyn:-

24 Hydref 2016	Awdurdodau lleol i lansio ymgynghoriad statudol am 8 wythnos
Canol Tachwedd	Anfon data Mudiad Meithrin at yr awdurdodau
20 Rhagfyr 2016	Awdurdodau'n cyflwyno Cynllun Strategol y Gymraeg mewn Addysg 2017-20 i'r Llywodraeth.

Nodwyd er bod yr amserlen yn dynn bod posibilrwydd y bydd y ddogfen wedi'i pharatoi ar amser.

Adroddwyd bod Llywodraeth Cymru yn comisiynu Estyn bob blwyddyn i archwilio ar sail themâu ac archwiliwyd un o feysydd y Cynllun Strategol y Gymraeg mewn Addysg. Dewiswyd Gwynedd a Fflint i'w harchwilio. Nodwyd bod adroddiad terfynol Estyn ar eu gwefan erbyn hyn ac mae paragraph 49 yn nodi fel a ganlyn:-

'Ceir rhai enghreifftiau da ble defnyddir arbenigedd yn effeithiol i ddatblygu darpariaeth ar draws awdurdodau lleol, mewn cydweithrediad â chonsortia rhanbarthol a rhwydweithiau rhanbarthol. Enghraifft o hyn yw datblygu'r 'Siarter Iaith' yng Ngwynedd. Nod y Siarter Iaith yw darparu fframwaith i hyrwyddo a chynyddu'r defnydd o'r Gymraeg gan ddisgyblion mewn cyd-destun cymdeithasol. Ceir arwyddion cynnar for y 'Siarter' yn dechrau cael effaith gadarnhaol ar gynyddu'r defnydd cymdeithasol o'r Gymraeg gan ddisgyblion yn

ysgolion Gwynedd. Mae'r 'Siarter' yn cael ei chyflwyno mewn ysgolion ledled Cymru ar hyn o bryd.'

Nodwyd yr angen sicrhau bod disgyblion sy'n dilyn cyrsiau drwy gyfrwng y Gymraeg yn yr Ysgolion yn gallu dilyn y cyrsiau yn y Gymraeg yn y Colegau wedyn.

PENDERFYNWYD cynnal cyfarfod arbennig i graffu Cynllun Strategol y Gymraeg mewn Addysg 2017-20 drafft.

6. DIWEDDARIAD AR WEITHREDIAD Y SAFONAU IAITH

Cyflwynwyd adroddiad y Swyddog Datblygu Iaith Gweithle. Nodwyd pwysigrwydd deall perthynas y Safonau Iaith efo Mwy na Geiriau a'r Awdit Iaith.

Gwnaed sylw bod y Safonau Iaith yn gyfyng gyda'r angen i edrych ar drefniadau i sicrhau nad yw Adrannau yn gweithio mewn silos ac i rannu ymarferion da.

Eglurwyd y mewnbwn a roddwyd yn y sesiynau hyfforddiant ar Ymwybyddiaeth Iaith y Gwasanaethau Oedolion ar gyfer gweithwyr cymdeithasol newydd. Eglurwyd ymhellach y bu cyfarfod gyda'r Brifysgol ar gyfer darparu cyrsiau addas ac mai diweddarau'r hyfforddiant wnaed.

7. CWYNION IAITH

Cyflwynwyd - adroddiad y Swyddog Datblygu Iaith yn manylu ar yr un gwyn iaith ddiweddaraf i law a'r ymateb.

Nodwyd bod yr Awdit Iaith i weld yn dechrau gweithio.

PENDERFYNWYD nodi cynnwys yr adroddiad.

Dechreuodd y cyfarfod am 2.00 y.h. a daeth i ben am 3.25 y.h.

PWYLLGOR IAITH (Cyfarfod Arbennig), 22.11.16

Yn bresennol: Y Cynghorydd Eirwyn Williams (Cadeirydd)
Y Cynghorydd Charles Jones (Is-gadeirydd)

Y Cynghorwyr: Elwyn Edwards, Alan Jones Evans, Gweno Glyn, Gareth Wyn Griffith, Alwyn Gruffydd, Eric M. Jones, Elfed Williams, Hefin Williams a John Wyn Williams.

Swyddogion: Garem Jackson (Swyddog Addysg Ardal), Bethan Eleri Roberts (Swyddog Rheoli Perfformiad), Debbie Anne Jones, Rheolwr Gwasanaethau Iaith Gymraeg ac Ann Roberts (Swyddog Cefnogi Aelodau).

Ymddiheuriadau: Y Cynghorydd Owain Williams, Craig ab Iago a Dyfrig Siencyn (Aelod Cabinet - y Gymraeg).

1. DATGAN BUDDIANT PERSONOL

Ni dderbyniwyd datganiad o fuddiant personol gan unrhyw aelod oedd yn bresennol.

2. CYNLLUN STRATEGOL Y GYMRAEG MEWN ADDYSG - DRAFFT

Diolchodd y Swyddog Addysg Ardal am y cyfle i drafod ymhellach y drafft o'r Cynllun yn ystod y cyfnod ymgynghori. Eglurwyd bod y Pennaeth Addysg wedi gweithio'n agos gyda'r swyddogion i baratoi'r drafft o'r Cynllun Strategol y Gymraeg mewn Addysg.

Cyflwynwyd yr adroddiad a gofynnwyd am sylwadau'r aelodau ar y Cynllun drafft.

Derbyniwyd sylw gan aelod nad oedd y Cynllun yn ei gyfanrwydd yn ddigon ymestynnol o ran dysgu trwy gyfrwng y Gymraeg a bod y Polisi Addysg dwyieithog yn gwaethygu'r sefyllfa drwy ddysgu un ai yn y Saesneg neu yn ddwyieithog.

Adroddwyd bod Swyddogion yr Adran Addysg yn gweithio ar y cyd ag Ymgynghorydd Allanol i gyflawni Astudiaeth a fydd yn ymateb i gwestiynau a sylwadau'r aelodau ar faterion lleol. Disgwylir adroddiad yr Astudiaeth a fydd yn cynnwys casgliadau ac argymhellion ym mis Ionawr 2017.

Derbyniwyd y sylwadau canlynol gan yr aelodau ar y Nod ac Amcanion a'r saith Deilliant:-

Nod ac Amcanion

Cryfhau'r trydydd pwynt bwled i ddarllen: "Yn CA2, parhau i ddatblygu meistrolaeth disgyblion"

Deilliant 1 – Mwy o blant saith oed yn cael eu haddysgu drwy gyfrwng y Gymraeg

- Angen cryfhau'r trydydd pwynt bwled i sicrhau cyfundrefn sy'n rhoi sylfaen gadarn yn y Gymraeg cyn cyflwyno Saesneg.
- Nodwyd bwriad y cyfarfod oedd i drafod y Cynllun Strategol y Gymraeg mewn Addysg. Er hynny, awgrymwyd bod angen cryfhau brawddeg y Polisi Iaith

presennol: “nod cyffredinol y Polisi Iaith yw dwyieithrwydd gan osod sylfaeni a thargedau cadarn”.

- Angen targedau mwy heriol os am gyrraedd targed y Llywodraeth o gael miliwn o siaradwyr Cymraeg yng Nghymru erbyn 2050.
- Angen gwersi Cymraeg fel pwnc drwy'r blynyddoedd i gael continwmm iaith.
- Cynnwys yr angen i gynnal astudiaeth ardrawiad iaith cyn cychwyn ad-drefnu ysgolion.
- Angen i ganiatáu plant o bob oedran i fynychu Canolfannau Iaith yn ôl yr angen, nid plant Blwyddyn 2 a hŷn yn unig.

Deilliant 2 – Mwy o ddisgyblion yn parhau i wella eu sgiliau Cymraeg wrth drosglwyddo o'r ysgol gynradd i'r ysgol uwchradd.

- Angen targedau mwy heriol ac angen sicrhau cysondeb yn y defnydd o'r diffiniad 'ail-iaith' wrth fesur perfformiad yn erbyn y targedau.

Mewn ymateb i gwestiynau'r aelodau ynglŷn â'r targedau eglurwyd bod gan yr Adran Addysg ffigyrau a thargedau lleol ond bod templed y Llywodraeth yn mynnu targed cyfansawdd ar gyfer y sir.

Deilliant 3 – Mwy o fyfyrwyr 14-16 oed yn astudio ar gyfer cymwysterau drwy gyfrwng y Gymraeg

a

Deilliant 4 – Mwy o fyfyrwyr 14-19 oed yn astudio pynciau drwy gyfrwng y Gymraeg, mewn ysgolion, colegau a dysgu seiliedig ar waith.

Mewn ymateb i gwestiwn gan aelod ynglŷn â chysiau galwedigaethol cydweithredol ôl 16 a ddarperir gan Goleg Menai ar gyfer ysgolion ardal Arfon yn unig, eglurwyd bod y Cynllun yn adrodd ar ysgolion yn hytrach na disgyblion. Nodwyd bod sefyllfa Coleg Meirion Dwyfor yn wahanol.

Deilliant 5 – Mwy o fyfyrwyr â sgiliau uwch yn y Gymraeg

Disgyblion Y Cyfnod sylfaen enillodd ddeilliant 5+ ar gyfer asesiadau athro mewn Cymraeg (Lefel 2+/Deilliant 5+)

Mewn ymateb i sylw gan aelod ynglŷn â chysondeb asesiadau athro o ysgol i ysgol adroddwyd bod GwE yn edrych yn benodol ar y maes o gymedroli a chysoni.

Adroddwyd ar enghraifft o lwyddiant y Siarter Iaith ers ei sefydlu drwy fod mwy o blant yn dewis Ysgol Uwchradd a ganfyddir yn Ysgol Uwchradd Gymreig ym Mangor. Adroddwyd y byddir yn rhoi strategaeth newydd ar waith yn y Sector Uwchradd yn 2017 a bod trafodaethau wedi cychwyn gyda'r penaethiaid i osod targed gwaelodlin.

Deilliant 6 - Darpariaeth Anghenion Dysgu Ychwanegol (ADY) cyfrwng Cymraeg.

- Angen sicrhau ethos Gymraeg yn y ddarpariaeth ac yn benodol cerddoriaeth.

Deiliant 7 – Cynllunio'r gweithlu a datblygiad proffesiynol parhaus (DPP)

- Mynegwyd pryder aelod am safon sillafu athrawon. Mewn ymateb adroddwyd yr adnabuwyd yr angen i barhau i ddatblygu cyfathrebu gyda Phrifysgol Bangor ar sawl mater i geisio dylanwadu a rhoi sylwadau ac y byddir yn dilyn y mater sillafu i fyny.
- Angen sicrhau bod pob deiliad swyddi yn gallu cyfathrebu trwy gyfrwng y Gymraeg a'r Saesneg i gefnogi'r datganiad bod addysg Gymraeg yn arwain at gyflog lefel uwch a gwella siawns yr ifanc.

Y Templed Adrodd

Mewn ymateb i sylw aelod ar y templed adrodd newydd, adroddwyd bod Llywodraeth Cymru wedi cychwyn ar y broses o ymgynghori ar effeithiolrwydd y templed. Nodwyd bod gweledigaeth Gwynedd yn ehangach a chryfach a'i bod yn bosib cyrraedd targed 2050 drwy greu cymunedau Cymraeg a thempled mwy perthnasol i sicrhau hynny.

Y camau nesaf

Adroddwyd y byddir yn

- cyflwyno sylwadau'r aelodau i'r Pennaeth Addysg
- 20 Rhagfyr 2016 - cyflwyno'r Cynllun Strategol y Gymraeg mewn Addysg 2017-20 i'r Llywodraeth.
- Derbyn Cynllun drafft yn ôl gan Lywodraeth Cymru.
- Mis Ebrill - Awdurdodau lleol i ddechrau gweithredu'r Cynllun Strategol y Gymraeg mewn Addysg.

Atgoffwyd yr aelodau bod y ddogfen gyhoeddus wedi ei lansio i ymgynghoriad statudol ar 24 Hydref am gyfnod o 8 wythnos a bod modd i'r aelodau ymateb fel unigolion pe dymunir. Adroddwyd nad oes amser i gyflwyno'r adroddiad eto a rhoi sylwadau pellach yn dilyn dyddiad cau'r ymgynghoriad.

Diolchwyd i bawb am eu sylwadau.

PENDERFYNWYD derbyn y sylwadau am ystyriaeth ar gyfer Cynllun Strategol y Gymraeg mewn Addysg 2017-20.

Dechreuodd y cyfarfod am 10.30 y.b. a daeth i ben am 11.55 y.b.

Eitem 7

CYFARFOD	Pwyllgor Iaith
DYDDIAD	28 Chwefror 2017
TEITL	Ymchwiliad Iaith – Gwelededd yr iaith Gymraeg yng Ngwynedd
PWRPAS	Cyflwyno argymhellion yr ymchwiliad
AWDUR	Y Cyngorydd Craig ap Iago, Cadeirydd yr ymchwiliad
SWYDDOG CYSWLLT	Hawis Jones, Rheolwr Cynllunio Strategol, Perfformiad a Phrosiectau

1.0 Cefndir

- 1.1 Mae Cynllun Strategol y Cyngor yn datgan bod y Cyngor am weld sefyllfa lle mae Gwynedd “yn parhau yn gadarnle i’r iaith, a’i bod yn iaith bob dydd sydd yn cael ei chlywed a’i siarad yn naturiol gan blant, pobl ifanc ac oedolion ar hyd ac ar led y sir.”
- 1.2 Diben yr Ymchwiliad Iaith – Gwelededd yr iaith Gymraeg yng Ngwynedd oedd ystyried y graddau y mae gwelededd yr iaith, mewn enwau, arwyddion a hysbysiadau ar draws y sir, yn bwysig o ran statws yr iaith a hyder trigolion yn ei defnyddio fel rhan naturiol o waith pob dydd. Roedd hefyd yn ystyried y graddau y mae gan y Cyngor ddylanwad dros y gwelededd hynny ac a oes angen i’r Cyngor wneud mwy.
- 1.3 Gwnaed hynny drwy:
- Ystyried yr ymchwil a’r dystiolaeth ddiweddaraf o faes Cynllunio ieithyddol am bwysigrwydd gwelededd yr iaith a thirwedd ieithyddol.
 - Ystyried y meysydd lle y gall y Cyngor sicrhau dylanwad dros dirwedd ieithyddol y sir yn cynnwys:
 - Rheolaeth y Cyngor o’i eiddo a’i diroedd ei hun
 - Trefniadau caffael y Cyngor
 - Amodau grantiau a chymorth y mae’r Cyngor yn ei ddyrannu
 - Y graddau o ddylanwad sydd gan y Cyngor ar arwyddion a osodir ar ymylon ffyrdd
 - Enwau tai a lleoedd
- 1.4 Pwrpas yr adroddiad hwn yw cyflwyno cyfres o argymhellion yr ymchwiliad er ystyriaeth y Pwyllgor Iaith cyn iddynt gael eu cyflwyno i’r aelod Cabinet.

2.0 Canfyddiadau’r ymchwiliad

Mae’r adroddiad sydd ynghlwm (Atodiad 1) yn cynnwys y canfyddiadau, gyda nodyn o’r dystiolaeth y tu cefn i’r canfyddiad hwnnw ac wedyn argymhelliad yr ymchwiliad yn ei ddilyn. Mae’r argymhellion wedi eu rhifo (A1-25).

3.0 Gweithredu'r argymhellion

Mae gwaith yr ymchwiliad wedi bod yn cydreddeg yn rhannol gyda gwaith yr awdit o sefyllfa'r iaith Gymraeg yng Nghyngor Gwynedd. Os bydd yr aelod Cabinet yn cytuno i weithredu'r argymhellion, yna awgrymir eu bod yn cael eu hymgorffori yng:

- i) Nghynllun Gweithredu'r Awdit Iaith
- ii) Nghynllun Cyfathrebu'r Awdit Iaith

Bydd yr hyfforddiant a ddaw yn sgîl canfyddiadau'r awdit iaith hefyd yn medru ymgorffori unrhyw ofynion sy'n gysylltiedig gydag argymhellion yr adroddiad hwn.

Mae argymhellion yr ymchwiliad hefyd yn gyson gyda diwylliant Ffordd Gwynedd o roi pobl Gwynedd yn ganolog i bopeth yr ydan ni yn ei wneud ac yn cefnogi dyhead y Cyngor i weithredu'n rhagweithiol i hyrwyddo'r Gymraeg.

4.0 Argymhelliad

Gofynnir i'r aelodau ystyried argymhellion Ymchwiliad Iaith - Gweledd y Gymraeg yng Ngwynedd i'w cyflwyno i'r aelod Cabinet.

Adroddiad Ymchwiliad Iaith Gwelededd y Gymraeg

Aelodau'r Ymchwiliad

Y Cynghorydd Craig ab Iago (Cadeirydd)

Y Cynghorydd Alwyn Gruffydd

Y Cynghorydd Charles Wyn Jones

Y Cynghorydd Elfed Williams

Y Cynghorydd Gweno Glyn

Eraill a wahoddwyd:

Dr Rhian Hodges, Coleg Cymraeg Cenedlaethol, Prifysgol Bangor

Dr Cynog Prys, Coleg Cymraeg Cenedlaethol, Prifysgol Bangor

Swyddogion

Hawis Jones (Swyddog Arweiniol)

Arwel Ellis Jones (Swyddog Arweiniol – cyfarfod 6 Gorffennaf 2016)

Ann Elizabeth Roberts (Swyddog Cefnogol)

Cyngor Gwynedd

Stryd y Jêl

Caernarfon

Gwynedd

LL55 1SH

Chwefror 2017

Cynnwys

Yr Adroddiad
1. Cyd-destun
2. Pwrpas yr ymchwiliad iaith
3. Prif weithgaredd yr ymchwiliad
4. Prif ganfyddiadau ac argymhellion
Yr Atodiadau
Atodiad 1 – Rhestr o'r rhai a gafodd eu cyfweld
Atodiad 2 – Cwestiynau a ofynnwyd i'r Athro Durk Gorter
Atodiad 3 – Cwestiynau a ofynnwyd i swyddogion am drefniadau caffael y Cyngor
Atodiad 4 – Cwestiynau a ofynnwyd i reolwyr gwasanaethau'r Cyngor

1. Cyd-destun

Wrth i'r Cyngorydd Craig ab Iago gyflwyno Adroddiad yr Ymchwiliad Iaith – Y Gymraeg Mewn Cyfarfodydd i gyfarfod y Pwyllgor Iaith ar 22 Hydref 2015, penderfynwyd nodi dymuniad i edrych ar y maes pa mor weladwy yw'r Gymraeg a gweithio ar friff ar gyfer ymchwiliad. Awdurdodwyd y swyddogion i symud ymlaen gyda'r ymchwiliad.

2. Pwrpas yr ymchwiliad iaith

- 2.1 Mae Cynllun Strategol y Cyngor yn datgan bod y Cyngor am weld sefyllfa lle mae Gwynedd “yn parhau yn gadarnle i'r iaith, a'i bod yn iaith bob dydd sydd yn cael ei chlywed a'i siarad yn naturiol gan blant, pobl ifanc ac oedolion ar hyd ac ar led y sir.”
- 2.2 Pwrpas yr ymchwiliad oedd ystyried y graddau y mae gwelededd yr iaith, mewn enwau, arwyddion a hysbysiadau ar draws y sir, yn bwysig o ran statws yr iaith a hyder trigolion yn ei defnyddio fel rhan naturiol o waith pob dydd. Bydd hefyd yn ystyried y graddau y mae gan y Cyngor ddylanwad dros y gwelededd hynny ac a oes angen i'r Cyngor wneud mwy.
- 2.3 Gwnaed hynny drwy:-
- a) Ystyried yr ymchwil a'r dystiolaeth ddiweddaraf o faes Cynllunio Ieithyddol am bwysigrwydd gwelededd yr iaith a thirwedd ieithyddol.
 - b) Ystyried y meysydd lle y gall y Cyngor sicrhau dylanwad dros dirwedd ieithyddol y sir yn cynnwys:
 - Rheolaeth y Cyngor o'r eiddo a'i diroedd ei hun
 - Trefniadau caffael y Cyngor
 - Amodau grantiau a chymorth y mae'r Cyngor yn ei ddyrannu
 - Y graddau o ddylanwad sydd gan y Cyngor ar arwyddion a osodir ar ymylon ffyrdd
 - Enwau tai a lleoedd
 - c) Ystyried gwerth y posibilrwydd o “ardal Gymraeg” i dreialu effaith gwelededd cyson yr iaith Gymraeg.
- 2.4 Roedd yr ymchwiliad yn anelu at lunio cyfres o argymhellion syml a di-gost i'r Aelod Cabinet gan eu rhannu gyda'r Pwyllgor Iaith cyn iddynt gael eu gweithredu.

3. Prif weithgaredd yr ymchwiliad

- 3.1 Cyfarfu'r ymchwiliad gyda nifer o reolwyr o'r Cyngor a oedd yn gyfrifol am wasanaethau dydd i ddydd a oedd yn effeithio ar ddelwedd weledol yr iaith yng Ngwynedd. Ceir rhestr o'r rhai a gafodd eu cyfweld yn Atodiad 1.
- 3.2 Wrth i waith yr ymchwiliad fynd rhagddo, daeth yn amlwg fod angen canolbwyntio yn y lle cyntaf ar yr hyn y gellid ei gyflawni o fewn y Cyngor, ac y byddai hyn yn uchelgais realistig o fewn cyfyngiadau amser yr ymchwiliad. Er bod yr ymchwiliad yn awyddus i barhau i ystyried gwerth y posibilrwydd o "ardal Gymraeg" i dreialu effaith cyson yr iaith Gymraeg, roedd yr aelodau yn awyddus i gyflawni gwelliannau ar draws y Cyngor yn y lle cyntaf. Cytunodd yr ymchwiliad felly i beidio ag ymchwilio ymhellach i 2.3c) uchod yn ystod cylch gwaith cyfredol yr ymchwiliad. Gellid o bosib ystyried ardal beilot, ar sail cost isel, yn ddarn o waith i'r dyfodol.
- 3.3 Gwahoddwyd arbenigwyr yn y maes er mwyn cynghori'r aelodau, sef Dr Rhian Hodges, a Dr Cynog Prys o Brifysgol Cymru, Bangor gan fod ganddynt dystiolaeth i gynorthwyo gwaith yr ymchwiliad. Croesawyd y cyfle ganddynt i gyfrannu at drafodaethau'r grwp, a chawsant eu cynnwys drwy gydol y gwaith.
- 3.4 Cynhaliwyd hefyd drafodaeth gyda Durk Gorter, Athro Ymchwil ac arbenigwr ym maes tirwedd ieithyddol o Ikerbasque.net, sef sefydliad Gwlad y Basg mewn gwyddoniaeth (Atodiad 2). Roedd hyn er mwyn gosod sylfaen deallusol i waith yr ymchwiliad. Yn ychwanegol at hyn, trafodwyd ei bapur, 'Linguistic Landscapes in a Multilingual World' gan aelodau'r grwp.
- 3.5 Cynhaliwyd trafodaeth rhwng swyddog cefnogol yr ymchwiliad ac Ann Hopcyn, Cyngor Tref Caernarfon ynglyn â gwaith y cyngor hwnnw yn hybu gwelededd y Gymraeg yn nhref Caernarfon drwy ohebu'n fuan â busnesau sy'n dymuno sefydlu yn y dref.
- 3.6 Yn ystod trafodaethau'r ymchwiliad, daeth materion perthnasol eraill i sylw'r aelodau, megis canfyddiadau'r Awdit o sefyllfa'r Gymraeg o fewn y Cyngor, ac arferion y Cyngor yng nghyswllt ei drefniadau cynllunio.

4. Prif ganfyddiadau ac argymhellion

- 4.1 Roedd aelodau'r ymchwiliad yn cydnabod fod nifer o ddulliau ar gael i hybu defnydd yr iaith heblaw am gynyddu gwelededd, ond mai gwelededd yw cylch gorchwyl yr ymchwiliad hwn.

- 4.2 Drwy drafodaethau'r aelodau gyda rheolwyr y Cyngor ac arbenigwyr yn y maes iaith, canfuwyd bod nifer o agweddau diwylliannol yn bwysig i newid ymddygiad er mwyn cynyddu defnydd y Gymraeg:
- Creu ethos, naws ac awyrgylch gartrefol sy'n annog defnyddio'r Gymraeg
 - Cynyddu hyder staff a'u harfogi i ddefnyddio'r Gymraeg drwy'r cyfan o'u gwaith
 - Creu awyrgylch saff i ddefnyddio'r Gymraeg ymysg siaradwyr rhugl a phobl sy'n dysgu'r iaith
 - Rhoi croeso i bawb ddefnyddio'r iaith
 - Cydweithio ar draws y Cyngor i rannu ymarfer da, a gwneud y gorau o arbenigedd y Cyngor yn y maes iaith er mwyn dylanwadu i gynyddu gwelededd yr iaith yng nghymunedau Gwynedd
- 4.3 Bod diwylliant a thirwedd ieithyddol unigryw Gwynedd yn rhywbeth i'w ddathlu a'i hybu ymysg pobl sy'n dewis dod i'r ardal i ymweld yn ogystal ag i fasnachu.
- 4.4 Bod nifer o enghreifftiau o ymarfer da yng ngwasanaethau'r Cyngor ym maes gwelededd y Gymraeg ac y dylid annog y gwasanaethau hynny i rannu eu profiadau, a gwerthu cyfieithiadau meddalwedd e.e. Eiddo, Cymunedau'n Gyntaf, Storiell, Hamdden.
- 4.5 Yn dilyn o lwyddiant Gwynedd gyda phrosiect y Siarter Iaith ar draws Gogledd Cymru, adnabuwyd fod posibilrwydd i'r Cyngor ddefnyddio ei arbenigedd er mwyn cynorthwyo cynghorau eraill ym maes y Gymraeg ac y byddai hynny'n fodd o ddenu incwm.
- 4.6 Y gall cynrychiolwyr adrannau lwyddo i gael effaith drwy ymyrryd yn gynnar, a chynnal sgwrs ynghylch y disgwyliadau pan adnabyddir nad yw cyflenwr yn cadw at delerau iaith cytundeb.
- 4.7 Drwy drafodaeth gyda'r Athro Durk Gorter, deallwyd nad oes tystiolaeth gadarn i ddangos fod cynyddu delwedd weledol yr iaith e.e. arwyddion, yn cynyddu defnydd y boblogaeth ohoni. Gellir fodd bynnag weithredu ar y rhagdybiaeth fod cynyddu gwelededd y Gymraeg yn arwain at gynyddu ymwybyddiaeth pobl o'r iaith.

- 4.8 Fodd bynnag, daeth yn amlwg fod modd cyflawni nifer o gamau bychain syml er mwyn gwireddu gwelliannau yn y maes yma.
- 4.9 Ei bod yn hanfodol fod argymhellion yr ymchwiliad yn cefnogi cynllun gweithredu awdit iaith y Cyngor ac hefyd diwylliant Ffordd Gwynedd o roi pobl Gwynedd yn ganolog i bopeth yr ydan ni yn ei wneud.
- 4.10 Yn olaf, thema a oedd yn codi yn gyson drwy gydol gwaith yr ymchwiliad oedd bod angen i weithwyr y Cyngor ddefnyddio'r Gymraeg yn gyntaf bob tro, gan feddwl am y Gymraeg yn gyntaf a bod yn rhagweithiol yn ddiodyn.
- 4.11 Ym marn yr ymchwiliad felly, dylai'r Cyngor:
- Normaleiddio defnyddio'r Gymraeg yn gyntaf
 - Fod yn rhagweithiol a hybu'r Gymraeg
 - Fod yn uchelgeisiol a gwthio ffiniau
- 4.12 Nodir canfyddiadau'r ymchwiliad ar bynciau penodol isod, gyda nodyn o'r dystiolaeth y tu cefn i'r canfyddiad hwnnw ac wedyn argymhelliad yr ymchwiliad yn ei ddilyn.

<p>1. Pwnc Gwelededd yr iaith yn y Cyngor</p>
<p>2. Canfyddiadau Rydym yn rhagdybio fod pawb yn ymwybodol fod croeso iddynt siarad Cymraeg gyda phob un o aelodau staff y Cyngor. Fodd bynnag, mae angen peidio â chymryd hynny'n ganiataol a chydabod y gall y Cyngor wneud mwy i arddangos hyn.</p> <p>Y gellir cymryd rhai camau pellach i gynyddu gwelededd y Gymraeg yng Nghyngor Gwynedd.</p>
<p>3. Tystiolaeth</p> <p>Adroddwyd gan gynrychiolwyr Prifysgol Bangor fod pobl sy'n dysgu Cymraeg yn adrodd eu bod yn fwy tebygol o'i ddefnyddio os ydynt yn gweld swyddogion yn arddangos y logo oren siarad Cymraeg. Ceir tystiolaeth o hyn mewn astudiaeth ymchwil a wnaed ar ran Llywodraeth Cymru: Hodges et al., 2015. Defnyddio'r Gymraeg yn y Gymuned: Astudiaeth Ymchwil. Caerdydd: Llywodraeth Cymru.</p> <p>Eisoed mae Siop Gwynedd wedi rhoi arwyddion iaith gwaith yn eu lleoliadau, ac mae pob aelod o staff yn defnyddio cortyn a bathodyn iaith.</p>

4. Argymhellion

- A1 Gwneud yn siwr bod holl wasanaethau'r Cyngor ar gael yn y Gymraeg yn gyntaf, boed yn beiriant, ffurflen neu drwy drafodaeth. Sicrhau mai'r Gymraeg sydd yn dod gyntaf. Dylid anfon neges allan at yr holl staff yn nodi'r disgwyliadau.
- A2 Bod angen gwneud mwy o ddefnydd o staff sydd yn barod i feddwl yn y Gymraeg bob amser gan eu cynnwys yn y gwaith o gynllunio a hybu'r iaith.
- A3 Bod angen i bob rheolwr ddod i adnabod iaith ei staff gan gymryd camau i sicrhau bod pawb yn derbyn hyfforddiant i wella eu sgiliau iaith Gymraeg a deall yr angen i gyfathrebu yn y Gymraeg yn gyntaf.
- A4 Bod staff y Cyngor yn cael eu hannog i wisgo llinyn bathodyn siarad Cymraeg efo'r cardiau agor drysau.
- A5 Gosod arwyddion uwchben bob cyntedd yn adeiladau'r Cyngor a Chanolfannau Hamdden, 'Siaradwch Gymraeg yn Gyntaf'.
- A6 Adolygu arwyddion a chyfeiriadau sefydliadau'r Cyngor e.e. a yw 'Cyngor Gwynedd Council' yn angenrheidiol.
- A7 Bod y Pwyllgor Iaith yn adolygu cynnydd y gwaith ar Gynllun Gweithredu'r Awdit Iaith er mwyn sicrhau cyrraedd at y canlyniadau.

1. Pwnc
Hybu'r Gymraeg

2. Canfyddiadau

Bod enghreifftiau wedi codi yn ystod yr awdit iaith diweddar lle bo angen gwella ymarfer ac ymddygiad ar draws y Cyngor. Roedd hyn yn ymwneud gyda'r angen i ddefnyddio'r Gymraeg yn gyntaf bob tro.

Yn ychwanegol, mae trafodaeth gyda Gwasanaeth Cofrestru'r Cyngor wedi agwrymu bod rhai cyfyngiadau ar yr hyn y gellir ei wneud trwy'r Gymraeg ond bod lle i awgrymu y gellid gwneud mwy i hybu'r Gymraeg. Ar hyn o bryd, gellir naill ai gofrestru yn ddwyieithog, neu yn y Saesneg yn unig. Os yw unigolyn yn dymuno cofrestru genedigaeth, priodas neu farwolaeth drwy gyfrwng y Gymraeg, mae'n rhaid i'r sawl sy'n cofrestru ddewis cofrestru'n ddwyieithog. Ar ben hynny, dim ond os yw'r sawl sy'n cyflwyno'r wybodaeth yn deall Cymraeg y gellir cofrestru'n ddwyieithog.

3. Tystiolaeth

Awdit iaith

Cyfweliad gyda Joanne Parry, Rheolwr Siopau Gwynedd, Galw Gwynedd a'r Gwasanaeth Cofrestru

Gwybodaeth gan y Swyddfa Gofrestru Gyffredinol.

4. Argymhellion

A8 Cynnal cyswllt cyson rhwng y Cyngor a'r Brifysgol.

A9 Ystyried a oes cyfleoedd i rannu arbenigedd y Cyngor yn y maes iaith a chodi incwm.

A10 Gofyn i'r Brifysgol rannu gwybodaeth gyda'r Cyngor ar sut i ddylanwadu ar eraill a dulliau newid ymddygiad.

A11 Defnyddio data'r Siarter Iaith ar gyfer hyrwyddo defnyddio'r Gymraeg.

A12 Gofyn i'r Gwasanaeth Cofrestru annog y rhai sydd yn cofrestru digwyddiadau i gymryd y cyfle i wneud hynny'n ddwyieithog.

A13 Pwyso ar y Swyddfa Gofrestru Gyffredinol i ganiatau i unigolion nad ydynt yn deall Cymraeg i gofrestru digwyddiadau yn ddwyieithog.

<p>1. Pwnc Trefniadau caffael y Cyngor</p>
<p>2. Canfyddiadau Er bod swyddogion sy'n gosod contractau yn y Cyngor yn ymwybodol o ofynion y Polisi Iaith, mae lle i hybu hyn a symud meddylfryd a ffiniau.</p> <p>Bod cwmnïau newydd angen cymorth gyda deall gofynion Polisi Iaith y Cyngor, a'r angen i ddarparu gwasanaeth yn y Gymraeg i drigolion Gwynedd.</p> <p>Y dylid cryfhau y gofynion iaith a chydabod y bydd angen monitro, yn hytrach na phlisma.</p> <p>Bod mwy y gall y Cyngor ei wneud wrth osod cytundebau gyda darparwyr allanol oherwydd nad yw amodau ieithyddol yn ddigon clir yn y cytundebau.</p>
<p>3. Tystiolaeth Cyfweiliadau gyda rheolwyr a chyfreithiwr y Cyngor (Atodiad 3).</p> <p>Canlyniadau'r awdit iaith.</p> <p>Derbyniwyd cadarnhad gan gyfreithiwr y Cyngor bod modd cynnwys amod mewn proses dendro bod yr ysgrifen ar gerbydau darparwyr allanol yn Gymraeg, cyn belled ei fod wedi ei gyfiawnhau ar sail hyrwyddo gwerth cymdeithasol y contract. Fe ellid dadlau bod hyrwyddo gwelededd y Gymraeg yn rhan o hyrwyddo iechyd y Gymraeg yn y gymuned, ac felly'n cyfrannu at gyfoeth diwylliannol, ac felly llesiant cymdeithasol y gymuned.</p> <p>Derbyniwyd cadarnhad hefyd y gall y Cyngor ei wneud yn ofynnol i adrannau sydd yn comisiynu gwaith i'w dendro egluro pam nad yw'r Gymraeg yn hanfodol i gytundeb allanol arbennig. Mae trefniadau'r Cyngor eisioes yn gofyn i adrannau comisiynu gyfiawnhau unrhyw ofynion ieithyddol gyda contract arbennig, a gellir fframio'r cwestiwn hwn mewn ffordd negyddol neu gadarnhaol.</p>
<p>4. Argymhellion A14 Bod yr Uned Gaffael drwy'r timau rheolaeth categori yn sicrhau bod y Gymraeg yn cael sylw gan y gwasanaethau lle mae elfen iaith yn berthnasol i'r manylebau ac is-contractau e.e. ychwanegu'r gofyn am arwyddion dwyieithog ar gerbydau cwmnïau allanol.</p>

A15Ymyrryd yn fuan os gwelir nad yw'r cyflenwr yn glynu at amodau iaith y cytundeb.

A16Bod y ddogfennaeth caffael yn gofyn i adrannau esbonio pam nad ydi cynnwys y Gymraeg yn hanfodol yn y manylebau ac is-gontractau

1. Pwnc

Ymylon ffyrdd a phalmentydd

2. Canfyddiadau

Bod gallu'r gwasanaeth i reoleiddio arwyddion a osodir ar ymylon ffyrdd neu ar hyd palmentydd y Cyngor yn wedi ei gyfyngedig ac y gellir rheoli'r sefyllfa o safbwynt diogelwch yn unig. Gellir hefyd annog arwyddion dwyieithog.

Bod nifer o'r digwyddiadau sy'n cael eu hysbysebu ar ymylon ffyrdd a phalmentydd yn ddigwyddiadau sy'n cael eu trefnu gan gwmnïau nad ydynt yn rhai lleol.

3. Tystiolaeth

Gallu cyfyngedig y gwasanaeth i reoleiddio'r sefyllfa.

4. Argymhellion

A17Rhoi neges reolaidd allan y dylid defnyddio'r Gymraeg ar eiddo Cyngor Gwynedd drwy ddefnyddio rhwydweithiau sy'n bodoli'n barod gan gyfeirio at y gwerth economaidd i fusnesau e.e.Rhwydwaith Busnes Gwynedd, Cynghorau Tref a Chymuned, cyfryngau cymdeithasol.

1. Pwnc

Asedau'r Cyngor

2. Canfyddiadau

Mae effaith gadarnhaol gweithredu'r polisi iaith yn golygu fod cwmnïau sydd wedi cyflenwi cytundebu adeiladu yn mynd a denyddio'r arwyddion eto mewn llefydd eraill e.e. cynghorau cyfagos.

Bod peiriannau talu am barcio bellach yn gofyn am bwysu botwm am wasanaeth Saesneg, ac felly yn dangos ein bod yn defnyddio'r Gymraeg yn gyntaf bob tro.

Na ellir rheoli enw adeilad.

3. Tystiolaeth

Cyfweliad gyda Dafydd Gibbard, Uwch Reolwr.

4. Argymhellion

A18 Annog aelodau a defnyddwyr cyfryngau cymdeithasol i anfon adborth am ddiffyg gwelededd y Gymraeg ar safleoedd adeiladu'r Cyngor os ydynt yn sylwi fod rhywbeth o'i le.

A19 Na ddylai penaethiaid ysgolion dderbyn unrhyw ohebiaeth a phosteri uniaith Saesneg e.e. gan archfarchnadoedd i'w gosod ar dir ysgol. Er mwyn sicrhau cysondeb ymateb, dylai'r Cyngor neu Aelod Cabinet (yn hytrach na'r Pennaeth Ysgol) gyfathrebu hyn gyda'r cwmni.

1. Pwnc

Digwyddiadau a gynhelir yng Ngwynedd a thwristiaeth

2. Canfyddiadau

Bod y Cyngor yn rhoi cyngor i gwmnïau sydd yn cysylltu â hwy er mwyn cael cymorth i gynlluniau busnes.

Bod y Cyngor yn gosod amodau i ddigwyddiadau sy'n cael eu hariannu ganddo i ddefnyddio deunyddiau dwyieithog i hybu'r digwyddiad e.e. arwyddion, poster.

Nid yw Deddf Trwyddedu 2003 yn galluogi cynghorau i fynnu ar amod penodol fod trefnwyr gwyliau yn defnyddio'r Gymraeg wrth hyrwyddo eu digwyddiadau.

Bod enghreifftiau o ymarfer da o ran hyrwyddo iaith yn y maes digwyddiadau e.e. yng Ngŵyl Rhif 6.

3. Tystiolaeth

Cyfweliad gyda'r Athro Durk Gorter, Ikerbasque a nododd fod nifer o astudiaethau wedi sefydlu bod gwerth economaidd wrth ddefnyddio arwyddion dwyieithog. Nododd hefyd fod canfyddiad wrth holi pobl bod arwyddion dwyieithog yn brif flaenoriaeth iddynt oherwydd bod hyn yn creu cyfleoedd i ddysgwyr ac yn atgyfnerthu dysgu. Cyfeiriodd hefyd at astudiaeth fechan mewn siop a ddangosodd fod cydberthynas rhwng gweld arwydd a defnydd iaith.

Cyfweliad gyda Siân Pennant Jones, Rheolwr Marchnata a Gofal Cwsmer Twristiaeth, Hugh Edwin Jones, Rheolwr Digwyddiadau, a Sioned E Williams, Pennaeth Gwasanaeth Economi a Chymuned yn amlinellu'r sefyllfa a'r rhwystrau ynghlwm â dylanwadu ar fusnesau mewn sefyllfa lle nad oes cyfraniad cyllidol ynghlwm.

Bod cynnydd o rhwng 25-35% wedi bod yn nefnyddwyr y wefan twristiaeth Eryri Mynyddoedd a Môr ers Tachwedd 2015.

4. Argymhellion

A20 Bod y Cyngor yn gweithredu'n rhagweithiol ac yn defnyddio pob cyfle i hybu a dylanwadu ar welededd y Gymraeg a chofio am y Gymraeg bob amser gan roi blaenoriaeth i'r:

- Sgwrs gychwynnol sy'n digwydd drwy gyswllt cyntaf cwmni gyda'r Cyngor lle gellir atgoffa hefyd am y budd economaidd o wneud hyn
- Grŵp Ymgynghorol Diogelwch Digwyddiadau ac sy'n cael ei chadeirio gan y Rheolwr Digwyddiadau

A21 Y dylai adrannau'r Cyngor sydd yn dod i gyswllt â'r rhai sy'n trefnu digwyddiadau gydweithio a rhoi rhestr o ddylunwyr dwyieithog iddynt.

A22 Anfon dogfen i godi ymwybyddiaeth am yr iaith allan efo'r drwydded adloniant.

A23 Defnyddio'r Fforwm Hyfforddiant i godi ymwybyddiaeth am y Gymraeg.

A24 Gwneud newidiadau i gyflwyniad y wefan dwristiaeth (Eryri Mynyddoedd a Môr) er mwyn cryfhau'r ymdeimlad naws am le.

1. Pwnc

Cynllunio

2. Canfyddiadau

Bod angen bod yn rhagweithiol ac ystyried yr iaith ymhob achos, gan sicrhau gwelededd amlwg i'r iaith o fewn ein trefniadau Cynllunio.

3. Tystiolaeth

Pwyllgor Cynllunio

4. Argymhellion

A25 Bod angen i'r adran arwain yn y Gymraeg beth bynnag fo iaith y ffurflenni cais cynllunio e.e. fersiwn Gymraeg enwau strydoedd, mapiau, a chanolbwyntio i sicrhau fod y dechnoleg yn ein galluogi i ddefnyddio gwybodaeth yn y Gymraeg.

Dymuna aelodau'r ymchwiliad ddiolch yn fawr i bawb sydd wedi eu cynorthwyo yn eu gwaith.

Ymchwiliad Gweleddd yr Iaith Gymraeg yng Ngwynedd

Rhestr o'r rhai a gafodd eu cyfweld:

Dyddiad	Unigolion a gafodd eu cyfweld
11 Mai 2016	<p><u>Unedau Caffael a Chyfreithiol</u></p> <ul style="list-style-type: none"> • Arwel Evans, Rheolwr Caffael Corfforaethol • Geraint Brython Edwards, Cyfreithiwr <p><u>Rheolaeth y Cyngor o ymylon ffyrdd a chludiant</u></p> <ul style="list-style-type: none"> • Dylan Wynn Jones, Rheolwr Traffig a Phrosiectau • Bethan Meira Owen, Rheolwr Cludiant Integredig • Rhian Wyn Williams, Rheolwr Cludiant Integredig
9 Mehefin 2016	<ul style="list-style-type: none"> • Gwenllian Mair Williams, Swyddog Datblygu Iaith Gwynedd (Gweithle) • Ifan Llewelyn Jones, Swyddog Datblygu Iaith Gwynedd • Sian Pennant Jones, Rheolwr Marchnata a Gofal Cwsmer (Twristiaeth)
6 Gorffennaf 2016	<ul style="list-style-type: none"> • Cara Owen, Rheolwr Rheolaeth Datblygu – Enwau Tai a Llefydd (Uned Cynllunio) • Athro Durk Gorter o Ikerbasque.net
21 Gorffennaf 2016	<ul style="list-style-type: none"> • Dafydd Gibbard, Uwch Reolwr Eiddo Corfforaethol • Amanda Davies, Rheolwr Adfywio Cymunedol – Amodau grant a chymorth y mae'r Cyngor yn ei ddyrannu (Cist Gwynedd) • Nêst Thomas, Rheolwr Amgueddfeydd a'r Celfyddydau (Grantiau Celfyddydau, (Adran Economi a Chymuned))
29 Medi 2016	<ul style="list-style-type: none"> • Ian Jones, Uwch Reolwr Cymunedau Iach, Adran Economi a Chymuned (Canolfannau Hamdden)

	<ul style="list-style-type: none">• Hugh Edwin Jones, Rheolwr Digwyddiadau• Sioned E Williams, Pennaeth Economi a Chymuned• Joanne Parry, Rheolwr Siopau Gwynedd, Galw Gwynedd a'r Gwasanaeth Cofrestru
--	---

Cwestiynau a ofynnwyd i'r Athro Durk Gorter

1. Sut y gall cynyddu gwelededd iaith gael effaith ar ymwybyddiaeth o'r ardal y mae pobl ynddi?
2. Sut y gall cynyddu gwelededd newid ymddygiad?
3. Beth ddylai'r blaenoriaethau fod inni?
4. Beth ddylid ei ystyried yng nghyswllt arwyddion stryd?
5. Pa ardaloedd sy'n cael eu hadnabod fel rhai lle mae ymarfer da?
6. Ydi rhai arwyddion yn cael mwy o effaith nag eraill?
7. Beth yw eich barn am gael ardal Gymraeg? A oes gennych unrhyw brofiad/gwybodaeth am hyn?

Cwestiynau a ofynnwyd i swyddogion am drefniadau caffael y Cyngor

1. Beth allwn ni ofyn i bobl ei wneud drwy ein cytundebau?
2. Sut ydym ni'n gwybod bod pobl yn cadw at ofynion y cytundeb?
3. Mae gwahanol fathau o gytundebau e.e. is-gontracau, sut yr ydym yn sicrhau gweithrediad yn erbyn y gofynion?

Cwestiynau a ofynnwyd i reolwyr gwasanaethau'r Cyngor

Sut rydych, drwy gyfrwng eich gwasanaeth yn dylanwadu ar welededd yr iaith Gymraeg?

Eitem 8

CYFARFOD:	PWYLLGOR IAITH
DYDDIAD:	28 Chwefror 2017
TEITL:	Paratoi ar gyfer Bil y Gymraeg – Cais am dystiolaeth
AWDUR:	Debbie Anne Williams Jones (Rheolwr Gwasanaethau Iaith Gymraeg)
PWRPAS YR ADRODDIAD	Cyflwyno crynodeb drafft o ymateb arfaethedig Cyngor Gwynedd i ddatganiad Gweinidog y Gymraeg a Dysgu Gydol Oes 'Paratoi ar gyfer Bil y Gymraeg – Cais am dystiolaeth'

1. CEFNDIR

1.1 Mae'r Prif Weinidog a Gweinidog y Gymraeg a Dysgu Gydol Oes wedi cyhoeddi eu bwriad i ystyried diwygio Mesur y Gymraeg 2011. Drwy gyfrwng y Mesur, sicrhair:

- statws swyddogol i'r iaith
- swydd Comisiynydd y Gymraeg
- fframwaith a chyfundrefn safonau
- rhyddid i bobl i ddefnyddio'r iaith Gymraeg.

1.2 Mae Llywodraeth Cymru yn credu ei bod yn amserol i ystyried y gwersi a ddysgwyd hyd yma yn sgil pasio'r Mesur 5 mlynedd yn ôl, a lle bo hynny'n addas, i gyflwyno gwelliannau a newidiadau, gan ystyried a yw'r cydbwysedd rhwng rheoleiddio gwasanaethau cyhoeddus a chefnogi'r Gymraeg drwy weithgareddau hybu a hyrwyddo defnydd yn gywir. Hyn oll er mwyn cyflawni'r uchelgais o filiwn o siaradwyr erbyn 2050.

1.3 Ar 31 Ionawr 2017, gwnaeth Alun Davies AC, Gweinidog y Gymraeg a Dysgu Gydol Oes ddatganiad yn nodi ei fwriad i gyhoeddi Papur Gwyn i ymgynghori ar ddarpariaeth am Bil y Gymraeg newydd mewn da o bryd i gynnal trafodaeth gyhoeddus dros yr haf. Golyga hyn fod cyfnod o ymgysylltu cynnar anffurfiol gyda phartneriaid a rhanddeiliaid wedi cychwyn, er mwyn casglu tystiolaeth gychwynol i'r Papur Gwyn hwnnw.

1.4 Yn ei ddatganiad, mae Gweinidog y Gymraeg a Dysgu Gydol Oes yn gofyn i bobl roi ystyriaeth i'r prif faterion canlynol:

- Beth yw eich profiad neu farn o'r gyfundrefn safonau? Yn arbennig y prosesau o osod a gorfodi'r safonau, a'ch profiad o weithredu neu baratoi i weithredu'r safonau o fewn eich corff

- Mae rôl Comisiynydd y Gymraeg yn cynnwys swyddogaethau rheoleiddio a chyfrifoldebau am hybu a hyrwyddo defnydd yr iaith. Ydi'r cydbwysedd yn gywir?
- Beth yw eich profiad neu farn am y trefniadau presennol am hybu a hyrwyddo defnydd y Gymraeg. Hoffwn glywed yn arbennig eich barn am bwy ddylai fod yn gyfrifol am hybu'r Gymraeg, tra'n cadw mewn cof y dryswch all godi ble mae nifer o gyrff yn gweithredu yn yr un maes.

2. BETH YW EICH PROFIAD NEU FARN AM Y GYFUNDREFN SAFONAU?

- 2.1 Yn y lle cyntaf, rhaid cydnabod fod sefyllfa Cyngor Gwynedd yn unigryw ac felly'n wahanol i ran fwyaf o gynghorau Cymru, gan mai iaith weinyddol fewnol y Cyngor yw'r Gymraeg, a defnyddir yr iaith yn naturiol yng ngwaith dyddiol y Cyngor. Yr hyn a wna'r Safonau yw gosod isafswm ar gyfer darpariaeth Gymraeg, a'r gwirionedd yw fod yr isafswm a osodir yn rhy isel i gyfarch ymrwymiad ac uchelgais cyffredinol Cyngor Gwynedd ar gyfer yr iaith Gymraeg.
- 2.2.1 Bu'r gwaith paratoadol ar gyfer y Safonau iaith ar Gyngor Gwynedd (yn yr un modd ag Awdurdodau Lleol eraill) yn feichus, gyda'r angen am:
- hunan-asesiad
 - ymateb i ymgynghoriad ar y safonau drafft
 - Ymchwiliad Safonau(holiadur 136 cwestiwn)
 - ymateb i'r ymgynghoriad ar y Polisi Gorfodi Comisiynydd y Gymraeg
 - ymateb i'r ymgynghoriad ar yr hysbysiad cydymffurfio drafft
 - derbyn 151 Safon yn yr hysbysiad terfynol
- Mae'r dasg o godi ymwybyddiaeth am y Safonau iaith o fewn y sefydliad yn parhau.
- 2.3 Yn achos Cyngor Gwynedd, ble ystyriwyd y Safonau fel isafswm, ac nad oeddent yn adlewyrchiad digonol o ymrwymiad y Cyngor tuag at y Gymraeg; er mwyn diogelu'r ymrwymiad hwnnw, bu'n ofynnol i'r Cyngor lunio a mabwysiadu Polisi iaith o'r newydd er mwyn gwarchod uchelgais y Cyngor ar gyfer y Gymraeg, ynghyd â'r ymrwymiad i fanteisio ar bob cyfle i hyrwyddo'r Gymraeg.
- 2.4 Yn sicr, gobaith Cyngor Gwynedd oedd y byddai'r Safonau yn rhoi mwy o le i allu dylanwadu a thynnu Cynghorau eraill yn agosach at ein ffordd ni o weithredu, ond gall y Safonau wneud ymdrechion i gael mwy o wasanaethau yn Gymraeg yn brofiad anodd a rhwystredig (yn yr un modd a'r Cynlluniau Iaith gynt). Un enghraifft o hynny yw amwysedd rhai o'r Safonau, sydd yn arwain at ddehongliadau gwahanol ohonynt gan sefydliadau gwahanol. Yn ddiweddar, cawsom brofiad o amrywiol ddehongliadau o 'ddogfen gyhoeddus', ac felly anghysondeb ac anghytundeb o'r angen i ddarparu rhai dogfennau yn ddwyieithog ai peidio. Safbwynt Cyngor Gwynedd wrth gwrs oedd bod angen dogfennaeth yn ddwyieithog, ac yn y diwedd cafwyd y maen i'r wal, ond mae'r amwysedd yn golygu yr angen i ni ddylanwadu a phwyso ar sefydliadau eraill yn barhaus yn hytrach na bod yr angen yn eglur i bawb. At hyn, mae eithriadau sydd wedi eu caniatáu i rai Safonau, neu'r ffaith bod rhai Cynghorau wedi eu heithrio o rai Safonau sylfaenol, yn golygu na ellir ar brydiau gael cytundeb ar pryd y dylid cynhyrchu dogfennaeth yn ddwyieithog.

- 2.4 Mae nifer o'r Safonau yn y maes polisi yn disgwyl i ni fedru tystiolaethu y modd yr ydym yn prif-ffrydio'r Gymraeg. Gallai hynny arwain at yr angen i ddogfennu pethau mewn ffyrdd nad ydym wedi arfer â gwneud er mwyn dangos ein bod yn cydymffurfio â'r Safonau Polisi. Mae creu cyfundrefn er mwyn bodloni gofynion rheoleiddiwr sydd ddim, mewn gwirionedd, yn ychwanegu gwerth i ddinasyddion, yn groes i egwyddorion Cyngor Gwynedd (drwy Ffordd Gwynedd).
- 2.5 At hyn, mae'r dull yr ydym yn gorfod profi a chofnodi'r modd yr ydym yn cydymffurfio gyda'r Safonau yn weinyddol feichus, mewn cyfnod lle bo adnoddau yn brin, ac yn codi'r cwestiwn pa werth gwirioneddol y mae'n ychwanegu o safbwynt gwella ansawdd, arlwy ac argaeledd gwasanaethau Cymraeg i'r dinesydd. Mae'r broses o gynnal ymchwiliadau yn enghraifft dda o hynny, gan y cymer 3 mis (os y cedwir at yr amserlen a osodwyd gan y Comisiynydd) i gyflawni un ymchwiliad, ac a ydyw amserlen a phroses mor fiwrocrataidd (sydd wedi ei gosod yn y Mesur) yn annog pobl i gwyno am ddiffyg gwasanaeth Cymraeg, ac argyhoeddi yr achwynydd y bydd gwasanaeth Cymraeg ar gael yn sgil gweithredu'r ymchwiliad.
- 2.6 Mae proses y Comisiynydd o ymdrin â chwynion hefyd yn peri anhawster. Digwydd hynny yn sgil y ffaith nad yw gohebiaeth y Comisiynydd yn cynnwys manylion am y gwyn, er mwyn ein galluogi i ymchwilio ac ymateb i'r gwyn honno'n benodol. Yn hytrach, rhaid ymchwilio i'r holl wasanaeth, ac mewn sefydliad mor fawr, gall hynny fod yn anhwylyus a beichus iawn. Mae diffyg rhannu gwybodaeth a chyfathrebu hefyd ynghlwm â'r broses; enghraifft o hynny yw'r ffaith fod amserlen ymchwiliad y Comisiynydd bron 6 mis yn hwyr, ac nad oes unrhyw gyfathrebu nac esboniad wedi ei dderbyn am yr oedi.
- 2.7 Mae'r Safonau sydd yn ymwneud â chyfarfodydd a hawl unigolion i gyfrannu yn Gymraeg yn gallu peri anhawster i Gyngor Gwynedd. Mae Polisi Iaith y Cyngor yn nodi bod yn rhaid i holl gyfarfodydd gael eu cynnal yn Gymraeg, gydag offer cyfieithu ar gyfer y rhai hynny sydd eisiau cyfrannu yn Saesneg. Golyga hyn fod y Safonau yn gwbl groes i arferiad y Cyngor, ac felly nid ydym yn cyfarwyddo'r staff i weithredu yn unol â'r Safonau. Yn hytrach na gofyn os bydd rhywun yn dymuno cyfrannu yn Gymraeg, byddwn yn gofyn os dymuna rhywun gyfrannu yn Saesneg, er mwyn darparu offer cyfieithu ar y pryd ar eu cyfer.
- 2.8 Yn yr un modd, mae unrhyw Safon sydd yn gofyn i'r Cyngor 'hybu' y gwasanaeth Cymraeg yn peri anhawster gan fod holl wasanaethau'r Cyngor yn ddwyieithog ac yn rhoi blaenoriaeth i'r Gymraeg. O ganlyniad, byddwn yn hyrwyddo'r gwasanaeth ei hun, yn hytrach na chyfrwng iaith y gwasanaeth. Credwn bod mwyafrif dinasyddion Gwynedd yn ymwybodol fod holl wasanaethau'r Cyngor ar gael yn ddwyieithog.

3. YDI'R CYDBWYSEDD RHWNG RHEOLEIDDIO A HYBU A HYRWYDDO YN GWIR?

- 3.1 Credir fod rôl Comisiynydd Y Gymraeg ers ei sefydlu wedi gogwyddo mwy tuag at reoleiddio yn hytrach na hybu a hyrwyddo defnydd o'r Gymraeg, ac nid yw'r Comisiynydd wedi gallu uno'r ddwy swyddogaeth yma yn yr un modd ac y llwyddwyd i wneud hynny gan Fwrdd yr Iaith Gymraeg.

- 3.2 Mae'n anffodus fod swyddogaeth Comisiynydd y Gymraeg wedi ei thanseilio reit ar y cychwyn pan wrthodwyd y Safonau Iaith, ac mae hynny wedi cael effaith ar ddelwedd y Comisiynydd, ac nad oes ganddi yr un hygredd ymddangosiadol a'r Comisiynydd Plant neu'r Comisiynydd Pobl Hŷn er enghraifft.
- 3.3 Er hynny, fe ddylai'r Safonau fod yn arf cadarnhaol ar gyfer newid, ond mae'r holl ddisgwrs o'u cwmpas (ers iddynt gael eu sefydlu) yn negyddol, ac mae'r pwyslais a'r anogaeth a roddir i 'gwyno' am ddiffyg gwasanaeth Cymraeg yn ychwanegu at y negyddiaeth yma. Onid oes hefyd eisiau cyfle a llwyfan i gofnodi, dathlu a rhannu arfer dda?
- 3.3 Sgil effaith y buddsoddiad sylweddol yn y broses reoleiddio, yw mai prin yw'r adnoddau efallai ar gyfer hybu a hyrwyddo, a chynnig cefnogaeth ac arweiniad ymarferol i sefydliadau cyhoeddus ddatblygu a atgyfnerthu'r gwasanaethau Cymraeg a ddarperir ganddynt.
- 3.4 Mae'r elfen o gydweithio a gallu cynnig datrysiadau creadigol i sefyllfaoedd heriol pan fo sefydliadau yn dod ynghyd i ddarparu gwasanaethau, neu wrth allanoli gwasanaethau cyhoeddus yn gofyn am arweiniad a chefnogaeth arbenigol gan Gomisiynydd y Gymraeg i arfogi sefydliadau cyhoeddus i wneud penderfyniadau ystyrlon am y modelau amgen o ddarparu gwasanaethau cyhoeddus fyddai hefyd yn gyfrwng i ddiogelu'r Gymraeg, a pha fodelau amgen (os o gwbl) fyddai'n gynwysedig o dan Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011. Mae risg amlwg i'r Gymraeg os nad yw consortia, a modelau eraill a sefydlir i ddarparu gwasanaethau cyhoeddus yn ddarostyngedig i'r Safonau Iaith.

4. BETH YW EICH PROFIAD NEU FARN AM Y TREFNIADAU PRESENNOL AM HYBU A HYRWYDDO DEFNYDD Y GYMRAEG?

- 4.1 Mae dwy elfen wahanol i hybu a hyrwyddo defnydd y Gymraeg yng Ngwynedd, sef ymrwymiad Cyngor Gwynedd i hyrwyddo'r Gymraeg a welir yng Nghynllun Strategol y Cyngor, yn y modd y gosodir y disgwyliad ar holl weithlu'r Cyngor i hyrwyddo'r Gymraeg drwy'r Polisi Iaith, yn ogystal â'r Safon Hybu; ac yn ail drwy hunaniaith, sef Menter Iaith Gwynedd sydd yn gweithredu nifer o brosiectau a ariennir drwy grant gan Lywodraeth Cymru yn y meysydd Teulu, Plant a Phobl Ifanc, Cymunedau, Gweithleoedd a Gwasanaethau er mwyn hyrwyddo'r defnydd o'r Gymraeg.
- 4.2 Mae Cyngor Gwynedd a hunaniaith fel ei gilydd yn croesawu ymrwymiad a gweledigaeth Llywodraeth Cymru ar gyfer y Gymraeg, sef uchelgais o greu miliwn o siaradwyr erbyn 2050, ac yn credu mai cyfrifoldeb y Llywodraeth yw gosod y fframwaith a'r cyfeiriad polisi ar gyfer yr iaith Gymraeg. Yn yr un modd, credir mai cyfrifoldeb y Llywodraeth yw'r fframwaith fonitro a sicrhau atebolrwydd am weithredu yn unol a'r cyfeiriad polisi a nodir yn Miliwn o siaradwyr erbyn 2050.
- 4.3 Fodd bynnag, ar wahân i weithredu'r rôl oddi fewn i'r sefydliad, nid yw'r Llywodraeth o bosib yn y lle gorau i weithredu'r rôl o hybu a hyrwyddo defnydd y Gymraeg ledled Cymru. Gofyn hynny am rinweddau megis hyblygrwydd a chreadigrwydd, ymateb i angen lleol, cefnogaeth ymarferol, treialu, ymddiriedaeth ayyb. Oni fyddai corff hyd braich o Lywodraeth Cymru yn cyflawni'r rolau hyn yn fwy effeithiol?

- 4.4 At hyn, yn sgil y ffaith fod rôl bresennol Comisiynydd y Gymraeg yn gogwyddo fwy tuag at reoleiddio yn hytrach na hybu a hyrwyddo, mae bwlch o safbwynt cynnig arweiniad, cymorth a chefnogaeth ymarferol i sefydliadau wneud mwy i hybu a hyrwyddo, yn ogystal a darparu mwy o wasanaethau drwy gyfrwng y Gymraeg. Amlygir y bwlch hwn y niffyg unrhyw weithgareddau sydd yn dod â Swyddogion Iaith sefydliadau cyhoeddus ynghyd i drafod y Gymraeg, y Safonau, cyhoeddiadau a dogfennau arweiniol ayyb. Elfen yr oedd Bwrdd yr Iaith Gymraeg ac WLGA (drwy Rhwydiaith) yn ei wneud yn gyson yn y gorffennol.
- 4.5 Mae'r bwlch hwn hefyd yn amlwg yng nghyd-destun y sector breifat, ac i raddau llai y trydydd sector, ac mae diffyg rhannu gwybodaeth am waith y Comisiynydd yn y meysydd hyn, a'r berthynas gyda gwaith y Mentrau Iaith, neu gyfleoedd i gydweithio eto'n cadarnhau nad yw rhai agweddau o'r trefniadau presennol yn hwyluso gweithredu a chydweithio, gan felly sicrhau'r canlyniadau gorau i'r iaith Gymraeg.

5. CAMAU NESAF

- 5.1 Mae Gweinidog y Gymraeg a Dysgu Gydol Oes yn cynnig cyfle i randdeiliaid drafod y cwestiynau uchod gyda swyddogion polisi Llywodraeth Cymru neu gyflwyno tystiolaeth ysgrifenedig erbyn 31 Mawrth 2017.
- 5.2 Yn ogystal, mae Llywodraeth Cymru wedi trefnu cyfarfodydd i drafod y cwestiynau uchod, a chynhelir y cyfarfod yn y gogledd yng Nghyffordd Llandudno ar 8 Mawrth 2017. Bwriedir sicrhau dirprwyaeth o'r Cyngor i fynychu'r cyfarfod hwn, gan ddefnyddio'r drafodaeth i fireinio ymateb terfynol y Cyngor i'r cwestiynau i'w cyflwyno i Llywodraeth Cymru erbyn 31 Mawrth 2017.

6. ARGYMHELLION

Gofynnir i'r aelodau:

- drafod a chyflwyno unrhyw sylwadau / enghreifftiau a ystyrir yn berthnasol i'r cwestiynau uchod
- dderbyn cynnwys yr adroddiad a'r camau nesaf.

Eitem 9

CYFARFOD	Pwyllgor Iaith
DYDDIAD	28 Chwefror 2017
TEITL	Awdit Iaith Mewnol
AWDUR	Gwenllian Mair Williams Swyddog Datblygu Iaith
PWRPAS YR ADRODDIAD	Cyflwyno crynodeb o ganfyddiadau'r Awdit Iaith a chynnig camau gweithredu pellach

1. Cefndir

- 1.1 Fel rhan o Gynllun Strategol y Cyngor ar gyfer 2015-17 ymrwymwyd i gynnal Awdit o sefyllfa'r Gymraeg o fewn y Cyngor. Y bwriad oedd canfod i ba raddau y mae'r Cyngor a'i swyddogion yn llwyddo i weithredu Polisi Iaith y Cyngor ac yn llwyddo i "*normaleiddio'r Gymraeg drwy ei adrannau a'r gwasanaethau a ddarperir i drigolion y sir*".
- 1.2 Ail fwriad y gwaith yw ystyried i ba raddau y mae'r Cyngor yn mynd gam ymhellach ac yn llwyddo i fanteisio ar bob cyfle i hyrwyddo'r Gymraeg drwy gyfrwng y gwasanaethau hynny a ddarperir i drigolion y sir yn uniongyrchol, ynghyd â thrwy drefniadau a chytundebau trydydd parti."
- 1.3 Yn dilyn yr arolwg a'r asesiad cychwynnol, blaenoriaethwyd 4 Adran i gydweithio â hwy i'w cynorthwyo i gymryd camau i wella arferion staff a'u hymwybyddiaeth am yr hyn sydd yn ddisgwyliedig wrth weithredu yn unol a'r Polisi Iaith. Y 4 Adran blaenoriaeth yw:
 - Ymgynghoriaeth
 - Oedolion, Iechyd a Llesiant
 - Economi a Chymuned
 - Rheoleiddio

2. Diweddariad ar yr Adrannau Blaenoriaeth

- 2.1 Cafwyd cyfarfodydd cychwynnol rhwng yr Aelod Cabinet a phenaethiaid yr Adrannau blaenoriaeth, er mwyn adnabod a chytuno ar gamau gweithredu cychwynnol er mwyn ymateb i ganfyddiadau'r Awdit.
- 2.2 Yn dilyn y cyfarfodydd hyn, lluniwyd cynlluniau gweithredu drafft ar gyfer **Ymgynghoriaeth** ac **Oedolion, Iechyd a Llesiant** ac mae'r cynlluniau drafft yma wedi eu rhannu gyda'r Penaethiaid er sylwadau.
- 2.3 Mae gweithredu eisoes wedi cychwyn ar rai elfennau o'r cynllun gweithredu gydag **Ymgynghoriaeth**, gyda 6 sesiwn ymwybyddiaeth iaith bellach wedi eu cynnal gyda staff yr adran.

Mae cynllun gweithredu wedi ei lunio fel drafft ar gyfer yr Adran **Economi a Chymuned**, ond cytunwyd i oedi cyn ei rannu nes y byddai canfyddiadau Ymchwiliad Gweledd y Gymraeg yn derfynol. Y rheswm am hynny yw y credir y byddai'n llawer mwy synhwyrol i ymgorffori unrhyw argymhellion perthnasol o'r Ymchwiliad fel rhan o gynlluniau gweithredu'r Awdit, yn hytrach na cheisio cyfarch yr argymhellion ar wahân.

- 2.4 Serch hynny, mae cynllun gweithredu unigol ar gyfer y gwasanaeth hamdden wedi ei lunio, a'i gytuno gyda'r Pennaeth a'r tîm rheoli. Mae gwaith yn mynd rhagddo i greu deunyddiau fydd yn cynorthwyo hyfforddwyr nofio i roi lle amlwg i'r Gymraeg wrth gynnal gwersi, angen wedi adnabod i gynnwys targed fydd yn cyfarch lle'r Gymraeg yn y broses recriwtio ac anwytho, a chynlluniau ar y gweill i adfer y cynllun Pencampwyr Iaith ac i gynnal sesiynau ymwybyddiaeth gyda pedair canolfan hamdden yn ystod mis Mawrth.
- 2.5 Nid oes cynllun wedi ei gytuno gyda'r Adran **Rheoleiddio** eto, ond bydd hyn yn digwydd yn fuan.
- 2.6 At hyn, bydd cyfarfodydd yn cael eu trefnu rhwng penaethiaid y 4 Adran, Aelodau Cabinet yr Adrannau hynny, ynghyd â'r Aelod Cabinet sydd â chyfrifoldeb am y Gymraeg, er mwyn sicrhau fod perchnogaeth ac atebolrwydd am y cynlluniau gweithredu hyn yn yr Adrannau.

3. Diweddariad ar y Cynlluniau Corfforaethol

Yn ychwanegol i'r gwaith dwys yn yr 4 Adran blaenoriaeth, cytunwyd hefyd fod angen ymyraethau mwy cyffredinol i rai o ganfyddiadau'r Awdit:

3.1 E-fodiwl Ymwybyddiaeth Iaith

Cafodd e-fodiwl ei ddatblygu ar y cyd rhwng yr Uned Iaith a'r tîm Dysgu a Datblygu a'i gwblhau Ionawr 2017. Mae bellach yn fyw ar y porth dysgu, ac mae nifer o staff eisoes wedi ei gwblhau. Y gobaith yw y bydd y modiwl yn cael ei lansio yn swyddogol ddechrau Mawrth 2017. Gellir gweld y modiwl drwy ddilyn y linc isod:

<http://gwynedd.learningpool.com/course/view.php?id=196#section-1>

3.2 Cynllun Cyfathrebu

Mae cynllun cyfathrebu drafft yn y broses o gael ei lunio yn sgil trafodaeth gyda'r Uned Gyfathrebu, ac er bod gwaith mireinio pellach arno, bydd y cynllun yn fodd o sicrhau bod negeseuon o anogaeth, a negeseuon cadarnhaol am bwysigrwydd hybu'r Gymraeg yng ngwasanaethau'r Cyngor yn cael eu cyfleu'n gyson i staff rheng-flaen.

Fel rhan o'r drafodaeth yma, amlygwyd pa mor ddylanwadol oedd neges y Prif Weithredwr am y Gymraeg a anfonwyd drwy Cyfathrebu Mewnol ychydig amser yn ôl, a chytunwyd fod angen i negeseuon cyson gael eu cyfleu am ymrwymiad y Cyngor i'r Gymraeg, gan blethu hynny gyda Ffordd Gwynedd.

At hyn, sicrhawyd fod arwyddion *laith Gwaith* eisoes wedi eu gosod yn holl Siopau Gwynedd er mwyn amlygu y gellir siarad Cymraeg gyda staff ymhob un ohonynt, gan felly annog y cyhoedd i ddefnyddio'r Gymraeg yn eu hymwneud â'r Cyngor.

4 Argymhelliad

Gofynnir i'r aelodau dderbyn cynnwys yr adroddiad..

Eitem 10

CYFARFOD:	PWYLLGOR IAITH
DYDDIAD:	28 Chwefror 2017
TEITL:	CWYNION IAITH
AWDUR:	GWENLLIAN MAIR WILLIAMS SWYDDOG DATBLYGU IAITH
PWRPAS YR ADRODDIAD	CYFLWYNO'R CWYNION DIWEDDARAF I'R PWYLLGOR.

CWYNION YN YMWNEUD Â CHYDYMFFURFIAETH Â'R SAFONAU IAITH (Derbynnir gan Swyddfa'r Comisiynydd Iaith)

DYDDIAD	CWYN	YMATEB.
Nid oes cwynion caeedig i'w hadrodd ers y cyfarfod diwethaf		

CWYNION UNIONGYRCHOL AM WASANAETH NEU YN YMWNEUD Â PHOLISI IAITH Y CYNGOR

DYDDIAD	CWYN	YMATEB.
26/09/2016	Cwyn fod hysbyseb gan Gyngor Gwynedd a Chymunedau yn Gyntaf yn hyrwyddo: "Training Registration Day For Maesgeirchen Residents" wedi ymddangos yn uniaith Saesneg yn y Daily Post	Cafwyd esboniad gan y gwasanaeth yn nodi fod testun gwreiddiol yr hysbyseb wedi ei ddarparu'n ddwyieithog i'r Daily Post gan aelod o dîm Cymunedau'n Gyntaf. Aeth y Daily Post ati i ddylunio a gosod yr hysbyseb. Pan yrrwyd fersiwn proflen terfynol yn ôl i'r aelod o staff roedd yn uniaith Saesneg, ond yn anffodus, oherwydd diffyg amser, methodd yr aelod o staff sylwi nad oedd yna fersiwn Gymraeg yn atodol i'r neges a chymeradwywyd y proflen. Pan sylwedolodd y Rheolwr fod yr hysbyseb yn uniaith Saesneg yn y papur, gofynnwyd i'r aelod o staff gysylltu yn ôl gyda'r Daily Post. Cytunwyd bod yn fai ar y ddwy ochr i wahanol raddau, a chytunwyd i symud ymlaen trwy ddarparu hysbyseb dwyieithog o'r un faith yn y papur yr wythnos ganlynol.
13/10/16	CI1607 – Cwyn am lythyrau uniaith Saesneg wedi eu hanfon at landlord ynghylch budd-dal tai un o'i denantiaid.	Cafwyd ymddiheuriad ac ymateb gan y gwasanaeth yn nodi bod y llythyr wedi ei anfon yn Saesneg yn unig gan fod y tenant dan sylw wedi nodi mai Saesneg oedd ei ddewis iaith. O ganlyniad, roedd unrhyw ohebiaeth oedd yn cael ei anfon yn ymwneud a'r budd-dal hwnnw yn cael ei anfon yn iaith ddewisol yr unigolyn dan sylw. Fodd bynnag, nododd y gwasanaeth y byddant yn edrych ar y system gyfrifiadurol er mwyn gweld a ellir gwahaniaethu rhwng dewis iaith y derbynnnydd a'r landlord yn y dyfodol. Yn y tymor byr, roeddynt yn sicrhau y byddai pob gohebiaeth at yr achwynydd dan sylw yn cael ei anfon yn

		Gymraeg o hyn allan.
9/11/16	<p>CI1608 – Cwyn gan Gyngor Tref Pwllheli bod rhai arwyddion stryd yn y dref yn parhau i fod yn ddwyieithog, er gwaethaf cytundeb gyda'r Cyngor i enwi strydoedd yn uniaith Gymraeg. Cyfeiriwyd at hen ohebiaeth efo'r Swyddog Iaith, a chyfeiriad penodol at Bolisi Enwau Strydoedd oedd i fod i gael ei ddatblygu gan adran Ymgynghoriaeth.</p>	<p>Gwnaed ychydig o waith ymchwil i geisio canfod beth oedd y cytundeb gwreiddiol gyda'r Cyngor ynghylch enwau strydoedd y dref. Ni bu posibil canfod copi, felly mae ansicrwydd ynglŷn â union natur y cytundeb, ond derbyniwyd gwybodaeth am gefndir y polisi enwau strydoedd arfaethedig.</p> <p>Anfonwyd ymateb yn esbonio bod y Polisi enwau strydoedd yn dal i fodoli ar ffurf drafft ac y bydd yn mynd gerbron y Pwyllgor Iaith yn 2017. Bydd ymateb pellach wedi hynny.</p>